**Fe wnaeth Beti, mam Rosa, plentyn 8 oed ag awtistiaeth, gysylltu â Chynnal Gofalwyr ar ôl cael gwybodaeth am ein grŵp cymorth i rieni trwy Ysgol. Byddai wedi hoffi dod i'r grŵp cymorth, ond roedd yn bellter o 28 o filltiroedd un ffordd, a byddai hyn yn anodd iddi. Pan oeddwn i'n ei chofrestru, soniodd ei bod hi'n teimlo'n unig ac wedi'i hynysu ers i'w theulu symud i ardal wledig yng Ngwynedd 18 mis yn ôl. Nid oedd unrhyw leoedd addas i fynd â'i merch awtistig ac nid oedd unrhyw gyfleoedd i gwrdd â phobl eraill mewn amgylchiadau tebyg.**

Soniais am y sesiynau hwyl a oedd yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r Pasg ac eglurais wrthi y medrai'r teulu i gyd fynd iddyn nhw. Roedd Beti yn credu y byddai hyn yn berffaith. Yn ystod y sesiwn hwyl, gwnaeth y teulu gwrdd â nifer o deuluoedd eraill. Bu'r plant yn chwarae â phlant eraill mewn amgylchedd diogel lle nad oedd unrhyw un yn barnu.

Pan oedd Rosa yn cael cyfnod tawel ar y bwrdd crefftau, dywedodd Beti wrthyf ei bod hi'n cael anhawster mynd â Rosa i siopa. Roedd ei gŵr yn gweithio oriau hir ac nid oedd yr un o'i theulu yn teimlo'n ddigon hyderus i ofalu am Rosa oherwydd ei hymddygiad. Dywedodd nad oedd wedi medru siarad ag unrhyw un o'r blaen oherwydd nid oedd eisiau llethu ei theulu a'u ffrindiau gyda'i phroblemau. Nododd hefyd fod ei merch yn cael anhawster â'i chydbwysedd ac yn methu mynd ar gefn beic. Roedd hyn yn gwneud i Rosa deimlo'n rhwystredig, oherwydd roedd hi eisiau medru mynd ar ei beic fel y medrai ei brawd. Roedd ei mam a'i thad hefyd yn feicwyr brwd.

Ar ôl y sesiwn hwyl, fe wnes i atgyfeirio Beti i gael Asesiad Gofalwyr. Dyfarnwyd dwy awr yr wythnos iddi yn ystod gwyliau'r ysgol i fynd i siopa. Dyfarnwyd 2 awr arall iddi er mwyn i Rosa gael cymorth un i un.

Cafodd atgyfeiriad arall ei wneud i'r elusen Children Today, ac ar ôl gwneud cais am grant, cafodd £1,500 ei ddyfarnu tuag at gael beic wedi'i addasu i Rosa. Mae ansawdd bywyd y teulu wedi gwella'n aruthrol. Nid oes gan Beti y straen o orfod mynd â Rosa gyda hi i siopa, ac mae Rosa yn cael hwyl gyda'i gweithiwr cymorth.

Mae'r beic wedi'i addasu yn golygu bod yr holl deulu yn medru mynd ar daith feicio gyda'i gilydd. Maen nhw'n byw ger llwybr y Mawddach, sy'n lle gwastad a diogel i feicio. Dywedodd Beti fod ei merch yn cael llawer o ymarfer corff, sy'n helpu i'w chadw'n heini ac yn iach. Mae'n weithgaredd y mae'n medru ei fwynhau gyda'i brawd a'i rhieni, a gorau oll, mae hefyd yn golygu ei bod yn cael noson dda o gwsg ar ei ôl, sy'n fendigedig!

Mae'r teulu'n mynychu'r sesiynau hwyl yn rheolaidd ac maen nhw wedi gwneud ffrindiau â theulu arall sydd hefyd â merch awtistig. Maen nhw wedi ymweld â'i gilydd yn eu cartrefi ac wedi trefnu i gael sglodion neu hufen ia gyda'i gilydd ar ôl y sesiynau hwyl.

Dywedodd Beti nad yw'n teimlo'n ynysig nac yn unig bellach ac mae'n ddiolchgar i Gynnal Gofalwyr am drefnu'r gweithgareddau er mwyn rhoi cyfleoedd i deuluoedd gwrdd â'i gilydd ac i'r holl deulu gael amser o ansawdd. Mae hefyd yn ddiolchgar o wybod bod Cynnal Gofalwyr yno os bydd angen gwybodaeth neu glust i wrando arni.